



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arloesi

Warws Glanhau Ffenestri

Mae Warws Glanhau Ffenestri ym Mro Morgannwg wedi cynyddu nifer y staff bedair gwaith a mwy na threblu trosiant, diolch yn rhannol, i dair Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.



Y Noddwyr

Mae Llywodraeth Cymru ac Innovate UK wedi buddsoddi mewn ystod amrywiol o raglenni i annog a chefnogi cydweithio rhwng diwydiant a phrifysgolion. Y cynllun hiraf sefydledig yw Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (PTG), sydd ers bron i 50 mlynedd wedi helpu busnesau i arloesi a thyfu drwy gydweithio â phrifysgol i ddod â sgiliau newydd a'r meddylfryd academaidd diweddaraf i gyflwyno prosiect arloesi strategol penodol.

Mae prosiectau PTG yn cynnwys tri pharti allweddol, busnes, prifysgol a myfyriwr graddedig neu aelod cyswllt diweddar o'r brifysgol, yn cael eu penodi i weithio mewn busnes am gyfnod cytunedig o amser. Mae'r Aelod Cyswllt, o dan oruchwyliaeth academydd prifysgol, yn trosglwyddo gwybodaeth newydd gan y brifysgol i helpu'r busnes i arloesi a thyfu.



Ynglŷn â'r tri phrosiect PTG Warws Glanhau Ffenestri a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd

Mae un cydweithrediad o'r fath rhwng y diwydiant a busnes, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, a ddechreuodd yn 2013 wedi galluogi Warws Glanhau Ffenestri a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i ddod o hyd i berthynas sydd hyd yn hyn wedi eu gweld yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd a sicrhau canlyniadau effeithiol ers bron i ddeng mlynedd.

Dechreuodd hyn drwy gwmpasu'r **PTG cyntaf** un a oruchwyliwyd gan yr Athro Steve Gill, Cyfarwyddwr Ymchwil Met Caerdydd, a wnaeth ymgorffori gallu dylunio cynnyrch mewnol ac a arweiniodd at gyfres o gynhyrchion newydd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr i gefnogi Warws Glanhau Ffenestri gyda'u strategaeth i mynd i mewn i farchnadoedd newydd a thyfu eu cyfran o'r farchnad.

Dilynwyd y llwyddiant hwn **yn gyflym gan ail Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth** yn 2015, a ysgogodd arbenigedd Dr Bethan Gordon, o Ysgol Gelf a Dylunio Met Caerdydd, a arweiniodd at ddatblygu

system unigryw ac arloesol iawn ar fan-osod a chael ei gydnabod fel arweinydd y byd ar gyfer offer glanhau awyrennau. Cafodd y bartneriaeth hon y radd uchafgan Innovate UK a derbyniodd Wobr Partneriaeth Busnes ac Addysg yn 2017.

Roedd y PTG diweddaraf a'r trydydd PTG yn cynnwys Sion Brown, a raddiodd mewn Cyfrifiadureg, yn gweithio o dan oruchwyliaeth Dr Imtiaz Khan a Dr Chaminda Hewage, o Ysgol Technolegau Caerdydd, wedi galluogi'r busnes i ymestyn i gynhyrchion newydd ac arloesol. Canolbwyntiwyd ar ddatblygu ap a oedd yn galluogi glanhawyr ffenestri i gynllunio a gweithredu eu gweithrediad glanhau yn effeithlon gyda'r effeithiolrwydd mwyaf a gyda'r defnydd lleiaf posibl o adnoddau fel dŵr pur a chemegau. Mae algorithmau clyfar sy'n sail i'r ap yn optimeiddio'r adnodd a'r llwybr trwy ddefnyddio'r data a gesglir ar sail amser real. Dyfarnwyd y radd uchaf posibl o 'Eithriadol' i'r prosiect hwn gan Innovate UK.

Yn ystod y tri phrosiect PTG, mae Warws Glanhau Ffenestri wedi cynyddu nifer y staff bedair gwaith ac wedi mwy na threblu

trosiant. Mae rhagor o rolau a thwf yn cael eu cynllunio yn unol â dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n anelu at greu Cymru lewyrchus.

Mae'r ap newydd a ddatblygwyd yn y trydydd PTG yn darparu data i helpu i leihau'r defnydd o ddŵr pur a chemegau. Mae annog llai o ddefnydd o adnoddau yn y modd hwn yn cyfrannu at les amgylcheddol Cymru, gan fod datblygu cynaliadwy hefyd yn agwedd allweddol ar y Ddeddf.

Y cwmni

Wedi'i sefydlu yn 2004, mae Warws Glanhau Ffenestri wedi tyfu ei gyfran o'r farchnad ac wedi dod yn arweinydd yn y farchnad wrth weithgynhyrchu, cyflenwi a dosbarthu offer glanhau ffenestri proffesiynol, gyda 40,000 o gwsmeriaid domestig a busnes wedi'u lleoli ledled y DU ac yn rhyngwladol.

Gyda gweithrediadau ym Mro Morgannwg a Lerpwl, mae'r busnes ar hyn o bryd yn cyflogi 26 o staff ac mae ganddo drosiant o £6 miliwn.

Yn ogystal â'i effaith economaidd leol nodedig, mae'r busnes wedi effeithio'n ymwybodol ar yr amgylchedd, gan gynnwys drwy ei ddatblygiadau arloesol a ddatblygwyd ar y cyd â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd sydd wedi arwain at leihau ei ddefnydd o adnoddau naturiol, fel dŵr a thanwydd.

Dywedodd Stephen Fox, Cyd-sylfaenydd a Chyfarwyddwr Warws Glanhau Ffenestri: –

“Mae'n anhygoel meddwl ei bod bron i 10 mlynedd ers i ni ddechrau gweithio gyda Met Caerdydd ar ein Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth gyntaf un. Yn

ystod y cyfnod hwn, rydym wedi tyfu fel busnes, nid yn unig o ran lefel y trosiant ond mae nifer y staff rydym yn eu cyflogi wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r ffordd rydym ni'n gweithredu hefyd wedi'i thrawsnewid yn llwyr. Ar ôl cwblhau ein trydydd PTG erbyn hyn, rwy'n edrych yn ôl ac yn gallu gweld sut, trwy ein gwaith gyda'r Brifysgol, mae llinell wedi'i diffinio'n glir o ran lle'r oeddem ni a ble rydym ni nawr.”

Y Cydymaith

Yn dilyn taith lwyddiannus barhaus y rhaglen hon o brosiectau, dywedodd Sion Brown, Cydymaith y Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth ar y drydedd Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth, sydd bellach yn cael ei gyflogi gan y cwmni: –

“Fe wnes i fwynhau'r PTG yn fawr iawn. Roedd dynameg cydbwyso'r ymchwil academaidd, arloesi, symleiddio prosesau'r cwmni ar gyfer diwydiant 4.0 a'r ffocws ar ddatblygiad personol yn gwneud y profiad yn amhrisiadwy. Mwynheais y strwythur, y cyfrifoldeb a'r datblygiad personol. “

Y Partner Academaidd

Dywedodd Matthew Taylor, Cyfarwyddwr Arloesedd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd: –

“Mae sicrhau bod ymchwil yn cael effaith gadarnhaol yn gymdeithasol yn flaenoriaeth ym Met Caerdydd. Mae'r rhaglen PTG yn gyfrwng ardderchog sy'n ein galluogi i rannu ein harbenigedd gyda phartneriaid diwydiannol. Rydym yn falch bod staff academaidd o wahanol ddisgyblaethau, ers bron i ddegawd, wedi gallu cefnogi twf cyflym busnesau bach a chanolig lleol yn uniongyrchol.”

I gael gwybod mwy am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

03000 6 03000 | innovation@llyw.cymru
businesswales.gov.wales/cy

Busnes | Business
Cymru | Wales